## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 (Diwygio) 2015
Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau Rhaglenni (Cymru) 2004
Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012

### Hysbysiad am Ymgynghoriad Cyhoeddus am Gynigion Adnau ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol

### CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AMNEWID CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL (CDLl) 2016-2031

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) wedi paratoi dogfennau ar gyfer y CDLl Amnewid. Bydd y CDLl Amnewid, o'i fabwysiadu, yn disodli'r CDLl cyfredol a fabwysiadwyd yn 2011 a bydd yn ffurfio sail ar gyfer penderfyniadau am faterion cynllunio'r defnydd o dir ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (ac eithrio'r ardal oddi fewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

Mae'r dogfennau Adnau fel a ganlyn:

- Y CDLl Adnau (yn cynnwys datganiad ysgrifenedig a chynigion a mapiau cyfyngiadau);
- Yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd (yn cynnwys Crynodeb Nad yw'n Dechnegol);
- Adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd CDLl Adnau; ac
- Adroddiad Ymgynghorol Cychwynnol

Mae'r dogfennau Adnau yn amodol ar ymgynghoriad ffurfiol 6 wythnos o hyd rhwng dydd Llun 30 Gorffennaf 2018 a dydd Llun 10 Medi 2018.

Caiff ein dogfennau cefnogol eraill hefyd eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd yr holl ddogfennau ymgynghori a ffurflen ar gyfer gwneud sylwadau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN a'r lleoliadau eraill a restrir isod yn ystod eu horiau agor arferol:

- Swyddfeydd y Cyngor, Uned 5,Parc Busnes Triongl, Pentrebach, *Merthyr Tudful;* CF48 4TQ
- Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful, Y Stryd Fawr, *Merthyr Tudful;* CF47 8AF
- Hwb Llyfrgell Rhydycar, Canolfan Hamdden *Merthyr Tudful, Merthyr Tudful;* CF48 1UT
- Llyfrgell Treharris, Stryd *Perrott, Treharris, Merthyr Tudful;* CF46 5ET
- Llyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, *Dowlais, Merthyr Tudful;* CF48 3HS
- Llyfrgell Gymunedol Aber-fan, Heol *Pantglas, Aber-fan, Merthyr Tudful,* CF48 4QE

Byddant ar gael ar-lein hefyd yma: www.merthyr.gov.uk neu o Hyb Cwm Taf: www.cwmtafhub.co.uk

## MERTHYR TYDFIL COUNTY BOROUGH COUNCIL

Planning and Compulsory Purchase Act 2004
Planning (Wales) Act 2015
The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (as amended 2015)
The Environmental Assessment of Plans and Programmes (Wales) Regulations 2004
The Conservation of Habitats and Species Regulations 2010 (as amended 2012)

### Notice of Public Consultation on Deposit Proposals for a Local Development Plan

### MERTHYR TYDFIL COUNTY BOROUGH COUNCIL REPLACEMENT LOCAL DEVELOPMENT PLAN (LDP) 2016-2031

Merthyr Tydfil County Borough Council (MTCBC) has prepared Deposit documents for the Replacement LDP. The Replacement LDP will, upon adoption, supersede the current LDP which was adopted in 2011 and form the basis for decisions on land use planning matters in Merthyr Tydfil County Borough (excluding the area within the Brecon Beacons National Park).

The Deposit documents are as follows:

- The Deposit LDP (including a written statement and proposals and constraints maps);
- The Sustainability Appraisal Report (including a Non-Technical Summary);
- The Deposit LDP Habitat Regulations Assessment (HRA) Report; and
- An Initial Consultation Report.

The Deposit documents are subject to a formal 6 week public consultation between Monday 30th July 2018 and Monday 10th September 2018.

Other supporting background documents will also be issued for consultation during this period.

All consultation documents and a form for making representations will be available for public inspection at the Council's main offices, The Civic Centre, Castle Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AN and other locations listed below during their normal opening hours:

- Council Offices, Unit 5, Triangle Business Park, Pentrebach, Merthyr Tydfil, CF48 4TQ
- Merthyr Tydfil Central Library, High Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AF
- Rhydycar Library Hub, Merthyr Tydfil Leisure Centre, Merthyr Tydfil, CF48 1UT
- Treharris Library, Perrott Street, Treharris, Merthyr Tydfil, CF46 5ET
- Dowlais Library, Church Street, Dowlais, Merthyr Tydfil, CF48 3HS
- Aberfan Community Library, Pantglas Road, Aberfan, Merthyr Tydfil, CF48 4QE

They will also available online at: www.merthyr.gov.uk or from the Cwm Taf Hub www.cwmtafhub.co.uk

**Rhaid i sylwadau am y dogfennau Adnau a gwybodaeth gefnogol arall fod yn ysgrifenedig a'u cyflwyno i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn y cyfeiriad a benodir isod rhwng dydd Llun 30 Gorffennaf 2018 a dydd Llun 10 Medi 2018.**

Dylai sylwadau (yn cynnwys y rheini ar ffurf gwrthwynebiadau) fod yn benodol ynghylch y materion y maen nhw'n cyfeirio atynt. Dylai gwrthwynebiadau hefyd fod yn benodol ynghylch y newid a ddymunir, ar ba sail y maen nhw'n cael eu gwneud a'r prawf/profion o ddiffuantrwydd sy'n berthnasol iddynt (gweler isod).

Dylai'r sawl sy'n cyflwyno sylwadau sy'n cynnig newidiadau i'r CDLl Adnau (yn cynnwys dyraniadau lleoliad newydd) ystyried a yw'n angenrheidiol i Werthusiad Cynaliadwyedd gyd-fynd â'i sylwadau. Pan fo gan newidiadau a gynigir effeithiau cynaliadwyedd sylweddol dylai'r sylwadau gynnwys gwybodaeth berthnasol o ran Gwerthuso Cynaliadwyedd.

Mae'n bosibl y bydd sylwadau yn cyd-fynd â chais i dderbyn hysbysiad i gyfeiriad penodol, fod y CDLl wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n annibynnol o dan adran 64 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a/neu fod y CDLl yn cael ei fabwysiadu.

Caiff yr holl sylwadau a wnaed yn ystod dyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a benodwyd eu cydnabod a'u hystyried gan y Cyngor cyn cyflwyno'r CDLl ar gyfer Archwiliad. Caiff y CDLl Adnau ei ystyried gan Archwiliwr annibynnol a fydd yn asesu a yw'n 'ddilys'. Ceir nifer o brofion ar gyfer dilysrwydd a gellir dod o hyd i'r rhain ar y ffurflen gwneud sylwadau sydd ar gael yma: www.merthyr.gov.uk. Dylai gwrthwynebiadau i'r CDLl Adnau gyfeirio at y profion hyn ble bynnag y bo'n bosibl.

Caiff sylwadau sydd wedi eu gwneud yn unol â'r hysbysiad hwn (hynny yw 'wedi eu gwneud yn briodol') eu hystyried gan Archwiliwr annibynnol a benodwyd i archwilio dilysrwydd y cynllun.

Dim ond y rheini sy'n gwneud sylwadau sy'n ceisio newid y CDLl Adnau y mae eu sylwadau wedi 'eu gwneud yn briodol' sydd â'r hawl i ymddangos o flaen a chael eu clywed gan yr Archwiliwr yn yr Archwiliad (Adran 64 (6) Deddf 2004).

Gallwch un ai e-bostio sylwadau wedi eu cwblhau i: devplanning@merthyr.gov.uk neu eu postio nhw at:

Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad
Adran Cynllunio a Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5, Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i gyflwyno'ch sylwadau e-bostiwch y Tîm CDLl yma: devplanning@merthyr.gov.uk neu ffoniwch 01685 726279.

**MISS J JONES**
**Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad**

**Representations on the Deposit documents and other supporting information must be made in writing and received by the County Borough Council at the address specified below between Monday 30th July 2018 and Monday 10th September 2018.**

Representations (including those taking the form of objections) should specify the matters to which they relate. Objections should also specify the change sought, the grounds on which they are made and the test(s) of soundness to which they relate (see below).

Representors proposing changes to the Deposit LDP (including new site allocations) should consider whether it is necessary for a Sustainability Appraisal to accompany their representation. Where proposed changes have significant sustainability effects the representation should include relevant Sustainability Appraisal information.

Representations may be accompanied by a request to be notified at a specified address that the LDP has been submitted to Welsh Government for independent examination under section 64 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 and/or the adoption of the LDP.

All representations made during the public consultation dates specified will be acknowledged and considered by the Council prior to the submission of the LDP for Examination. The Deposit LDP will be considered by an independent Inspector who will assess whether it is 'sound'. There are a number of tests of soundness and these can be found on the form for making representations available at www.merthyr.gov.uk. Objections to the Deposit LDP should make reference to these tests wherever possible.

Representations made in accordance with this notice (i.e. 'duly made') will be considered by an independent Inspector appointed to examine the soundness of the plan.

Only those making representations seeking to change the Deposit LDP whose representations were 'duly made' have the right to appear before and be heard by the Inspector at the Examination (Section 64 (6) of the 2004 Act).

You can either email completed representation forms to: devplanning@merthyr.gov.uk or post them to:

Head of Planning and Countryside
Planning and Countryside Department
Merthyr Tydfil County Borough Council
Unit 5, Triangle Business Park
Pentrebach
Merthyr Tydfil
CF48 4TQ

If you have any queries about how to submit your comments please email the LDP Team at devplanning@merthyr.gov.uk or Telephone 01685 726279.

**MISS J JONES**
**Head of Planning and Countryside**